CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod
6ed Mawrth 2024 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng.Dewi Gwyn (Cadeirydd), Llinos Roberts, Heulwen Owen, Nia Jones, D.Idriswyn Roberts. Cynghorwyr Sirol : Dyfed Wyn Jones, Sonia Williams Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Janet Jones, Owain Evans, Robin Williams.
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07/02/2024. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. LlR yn cynnig, NJ yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llwybrau Cyhoeddus - Gwaith wedi'i gwblhau.
4.2	Hysbysfyrddau - NJ am ofyn i'r tirfeddianwyr os y buasem yn cael gosod hysbysfwrdd newydd ar y safle.
4.3	Ffens 20-22 Bryn Ffynnon - Disgwyl ymateb gan CSYM.
4.4	Golau Maes Parcio Bryn Ffynnon - Disgwyl ymateb gan CSYM.
4.5	Llwybr Cenedlaethol Beicio - Disgwyl ymateb gan CSYM.
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog.
5.2	Taliadau - Cymeradwyo taliadau.
5.3	PAYE - Disgwyl ymateb gan HMRC
5.4	Ail-ddatganiad Pensiwn - Clerc i gwblhau y datganiad cyn diwedd y mis.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
6.1	Cyflwyniad Fforwm Gyswllt - Clerc wedi rhannu yr adroddiad.
6.2	Cronfa Ffyniant Gyffredin i helpu Ynys Actif - Clerc wedi rhannu yr adroddiad.
6.3	Blaen Rhaglen Waith - Clerc wedi rhannu yr adroddiad.
6.4	Grant Cymorth Ieuenctid - HO am yrru y wybodaeth ymlaen ir Ffermwyr Ifanc.
6.5	Cronfa Gwelliannau Amgylcheddol a Chymunedol - Clerc wedi rhannu yr adroddiad.
6.6	Pwyllgor Safonau yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd - Clerc wedi rhannu y wybodaeth.
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
8.1	Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru a'r gydnabyddiaeth Ariannol - Trafodwyd yr adroddiad a taliadau etholedig y Cynghorwyr.
8.2	Cyfraniadau - Clerc wedi derbyn ceisiadau ar gyfer cyfraniadau i wahanol fudiadau. Trafodwyd ar hyn o bryd nad ydi'n bosib rhoi unrhyw gyfraniad ariannol.

9.0	**Materion Eraill**
9.1	Ffiniau'r Cae Chwarae - 5 Stad Y Garnedd wedi hawlio ychydig o dir ychwanegol, perchennog newydd yn hapus i dynnu y ffens yn ôl i'r lle gwreiddiol. Clerc i gysylltu gyda Norman Jones.
9.2	Amser cychwyn cyfarfod - Cynigwyd symud y cyfarfodydd i 6:30yh, Cadeirydd yn gofyn i bawb gysidro y cynnig.
9.3	Sedd Penmynydd - Christine Hallsworth CSYM wedi gyrru rhybydd cyntaf i'r clerc i hysbysebu.
9.4	Elusendai - Diweddariad gan DG, angen cofrestru'r tir, gwneud cais i adran cynllunio CSYM ac yna edrych i wneud ceisiadau am arian i ddatblygu, angen diweddaru y cyfansoddiad.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
10.1	Cyllideb
10.2	Adroddiad Blynyddol
10.3	Datganiad Ariannol
10.4	Band Eang

Llofnod **Dyddiad**